# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cofnodion (HSS(2)-11-05)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 3 Tachwedd 2005
### Amser y cyfarfod: 9.00am hyd 12.30pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Brian Gibbons (Gweinidog) | Aberafan |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Natalie Cooper | Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru |
| Christine Daws | Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau |
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Rob Pickford | Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru |
| Sharon Rees | Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru |

| | |
|---|---|
| Dr David Salter | Y Prif Swyddog Meddygol Dros dro |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler y Pwyllgor |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jocelyn Davies a Jonathan Morgan. Roedd Dai Lloyd yn dirprwyo ar ran Jocelyn Davies.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Bydd cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

### Eitem 2: Cynigion ar gyfer y Gyllideb 2006-07

### Papur: HSS(2)-11-05(p.1)

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog y gyllideb ddrafft ar gyfer 2006-07.

Camau i'w cymryd

- Y Gweinidog i ddarparu papur i'w nodi ar y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran rhoi fformiwla Townsend ar waith, gan ei nodi mewn perthynas â'r twf yn y gyllideb gyffredinol. Bydd y papur hefyd yn nodi aelodau'r Grwp Arbenigwyr a sefydlwyd i gynghori'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ddatblygiad model dyrannu yn ôl anghenion uniongyrchol Townsend.
- Y Pwyllgor i ystyried rhoi fformiwla Townsend ar waith fel pwnc posibl ar gyfer gwaith craffu'r Pwyllgor yn y dyfodol.
- Y Gweinidog i ddarparu papur i'w nodi ar yr arbedion o ran caffael a symleiddio gwasanaethau rheoli er mwyn cyllido gwasanaethau rheng flaen yn y flwyddyn gyfredol.
- Y Gweinidog i ddarparu papur i'w nodi ar y gwariant ar gyffuriau a ragfynegwyd ar gyfer eleni a'r flwyddyn nesaf.

### Eitem 3: Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru - Adroddiad Blynyddol 2004-05

**Papur: HSS(2)-11-05(p.2)**

3.1 Cyflwynodd Rob Pickford, Prif Weithredwr Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2004-05.

Camau i'w cymryd

- Manylion y sefydliadau yng Nghymru yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i gael eu dosbarthu.

**Eitem 4: Y Mesur Mabwysiadu a Phlant**

**Papur: HSS(2)-11-05(p.3)**

4.1 Roedd Plaid Cymru wedi cyflwyno nifer o welliannau. Roedd y gwelliannau'n ymwneud â Rhan 1 o'r Mesur, sydd y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, felly ni chafodd y gwelliannau eu trafod.

Camau i'w cymryd

- Y Cadeirydd i ddarparu adroddiad i Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

**Eitem 5: Deddfwriaeth sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r Contract Deintyddol Newydd**

**Papur: HSS(2)-11-05(p.4)**

5.1 Nodwyd yr eitemau canlynol o ddeddfwriaeth fel rhai y mae'r Pwyllgor yn dymuno craffu arnynt ar 23 Tachwedd:

- Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006
- Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006
- Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006

5.2 Nodwyd y byddai'r rheoliadau ar ffurf ddrafft.

5.3 Bydd gweddill y rheoliadau cysylltiedig yn cael eu hystyried yn fuan yn y Flwyddyn Newydd.

**Camau i'w cymryd**

- Y Clerc i roi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Busnes am yr eitemau a nodwyd.